## CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
## RHONDDA CYNON TAF

## GWŶS I GYFARFOD PWYLLGOR

**Mr C. B. Jones**
**Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol**
**Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf**
**Y Pafiliynau**
**Parc Hen Lofa'r Cambrian**
**Cwm Clydach CF40 2XX**

Rhif ffôn (01443) 424098 – J. Nicholls

Bydd cyfarfod o'r **PANEL YMDDEOL YN GYNNAR O WIRFODD / YMDDISWYDDO** yn cael ei gynnal yn Swyddfeydd Cyngor y Fwrdeistref Sirol, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach **(YSiambr) ddydd Mawrth, 30 Ionawr 2018 am 2.00pm.**

### AGENDA

**Tudalennau**

**1. Datgan Buddiant**

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau, yn unol â gofynion y Côd Ymddygiad (gan gynnwys datganiadau dan orchmynion chwip).

**Nodwch**:

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, rhaid iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

**2. Cofnodion**

Cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Panel Ymddeol yn Gynnar o Wirfodd / Ymddiswyddo a gynhaliwyd ar 21 Tachwedd 2017.. **1-4**

**3. Trafod cadarnhau'r cynnig isod yn benderfyniad:**

"Bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 12 o Ran 4 o Atodlen 12A o'r Ddeddf."

4. **Ceisiadau Ymddeol yn Gynnar o Wirfodd / Ymddiswyddo**

**Ystyried adroddiad ar y cyd y Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant, Cyfarwyddwr Gwasanaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes a Chyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Gwasanaethau Rheng Flaen sy'n cynnwys gwybodaeth eithriedig** (i ddilyn)

5. Trafod unrhyw faterion sydd, ym marn y Cadeirydd, yn faterion brys yng ngoleuni amgylchiadau arbennig.

**Cylchrediad:**

**Aelodau o'r Panel:**

Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol (Mrs) J. Bonetto, (Mrs) S. Rees, (Mrs) W. Treeby, M. Weaver ac (Mrs) M. Webber.

**23 Ionawr 2018**